

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: 'Mynediad at Fancio'

Ymateb Metro Bank i'r Ymchwiliad 'Mynediad at Fancio'

Mae Metro Bank, sy'n achosi chwyldro ym mancio Prydain, yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor sy'n mynd rhagddo i mewn i 'Fynediad at Fancio' yng Nghymru.

Fel y cyntaf o fanciau newydd y stryd fawr i weithredu yn y DU ers dros 100 mlynedd, wedi ei adeiladu ar y wireb fod cwsmeriaid yn haeddu'r gorau mewn gwasanaeth a chyfleuster, rydym ni'n cydnabod yn well na'r rhan fwyaf yr heriau gwaelodol sy'n wynebu'r sector, o gystadleuaeth ar y stryd fawr, i rôl hanfodol ariannu BBaCh ar gyfer cymunedau lleol, a phwysigrwydd gwasanaeth wyneb yn wyneb i gwsmeriaid mewn byd sy'n dyfod yn gynyddol ddigidol.

Yn hynny o beth, gweler isod ein hymateb i'r archwiliad, â gwybodaeth bellach am Metro Bank ar ddiwedd y cyflwyniad hwn.

Crynodeb

- Bydd Metro Bank yn cyflwyno ei wasanaeth i gwsmeriaid, sy'n wasanaeth gwobrwyedig, am y tro cyntaf i Gymru drwy agor dwy gangen newydd yn y ddinas.
- Nid yn unig fydd y canghennau newydd hyn yn cynyddu mynediad at fancio yng Nghymru drwy gynyddu cystadleuaeth, ond byddant hefyd yn creu tua 50 o swyddi a phrentisiaethau newydd yn uniongyrchol.
- Mae cynnig busnes Metro Bank yn canolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid, gyda canghennau banc ffisegol yn parhau i fodoli ar y stryd fawr fel conglfaen i'n strategaeth datblygu cwsmeriaid.
- Mae Metro Bank wedi amlinellu wyth ymrwymiad craidd, â phob un ohonynt yn canolbwyntio ar hygyrchedd BBaCh a chynhwysiant, fel rhan o'n cynnig llwyddiannus ar gyfer ariannu Gallu ac Arloesedd (G ac A).
- Fel y 'banc herio' gwreiddiol, twf cystadleuaeth yn y sector bancio yw'r un rydym wedi ei arwain ac yn parhau i fod yn rhan ohono. Bu'r twf hwn o fudd i gwsmeriaid drwy gynyddu dewis a hyblygrwydd.

Cwmpas yr Ymgynghoriad

1. Y sefyllfa bresennol o ran mynediad at wasanaethau bancio yng Nghymru, gan gynnwys materion sy'n berthnasol i gynhwysiant ariannol a chynhwysiant digidol.

Brin wyth mlynedd ers i ni agor drysau ein cangen gyntaf yng nghanol Llundain, rydym wedi dod â'r gwrthryfel bancio i 66 o gymunedau, croesawu 1.6 miliwn o gyfrifon a chreu 3,900 o swyddi ledled y DU.

Wrth i ni barhau i dyfu, byddwn yn agor rhagor o ganghennau ledled y DU – lawer ohonynt sydd eisoes yn y cam cynllunio datblygedig neu wrthi'n cael eu hadeiladu – a chreu cynigion newydd i'n cwsmeriaid presennol a'r rhai newydd. Oddi fewn i hyn, rydym wrth ein boddau i hysbysu'r Pwyllgor y bydd Metro Bank yn dod â'i wasanaeth gwobrwyedig a phrofiad bancio cymunedol i Gymru am y tro cyntaf.

Bwriadwn gael presenoldeb yng nghanol dinas Caerdydd drwy agor cangen yno, yn ogystal ag ar Heol Casnewydd, a fydd o fudd i gwsmeriaid a busnesau Cymru fel ei gilydd. Byddwn yn cyhoeddi manylion pellach pan a phryd fydd amseru'n caniatáu. Nid yn unig fydd y canghennau newydd hyn yn cynyddu mynediad at fancio yng Nghymru drwy gynyddu cystadleuaeth, ond byddant hefyd yn creu tua 50 o swyddi newydd a phrentisiaethau newydd ar unwaith yn y ddinas.

Gyda'r cyhoeddiad hwn, rydym yn cynllunio i ehangu gwasanaethau bancio a chynhwysiant – yn ariannol ac yn ddigidol – yng Nghymru drwy ein ffocws ar wasanaeth cwsmeriaid ardderchog. Roeddem yn hynod o falch, fis Chwefror eleni, i ddod i'r brig am ein gwasanaeth cyfrif cyfredol personol yn arolwg ansawdd

gwasanaeth dwyflynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a'r Farchnad. Roeddem hefyd wrth ein boddau i ddog yn ail am wasanaethau cyfrif cyfredol busnes – dyma arwydd o'n cryfder ar draws y ddau faes.

Ochr yn ochr â'n cynlluniau cyfredol i dyfu yng Nghymru a De Lloegr, rydym hefyd wedi gwneud ymrwymiad i agor tri deg o ganghennau pellach yng Ngogledd Lloegr erbyn 2025. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o ymdrechion Metro Bank i chwistrellu cystadleuaeth fawr ei hangen i'r farchnad fancio busnesau bach yn dilyn yr arian a ddyfarnwyd i ni, sef £120 miliwn, oddi wrth Gronfa G ac A, sef rhan o Becyn Amgen *Williams & Glyn Alternative Remedies Package*. O ganlyniad byddwn yn creu mwy na 750 o swyddi newydd a thros 100 o brentisiaethau ledled y DU.

Fel rhan o'r cais llwyddiannus hwn, cafwyd addewid gennym i adeiladu amrywiaeth o alluoedd digidol blaengar i helpu BBaChau i ffynnu. Ymhlith y galluoedd mae:

- ✓ Ap mewnwediad a arweinir gan ddeallusrwydd artiffisial i helpu BBaChau ddeall eu llif arian parod;
- ✓ Lansio gwasanaeth symudol casglu arian parod a gadael arian parod sy'n gweddu BBaChau prin eu hamser, yn well;
- ✓ Cyflwyno taith gyflawn o'r dechrau i'r diwedd er mwyn agor cyfrif banc busnes ar-lein, fel bod BBaChau bob man yn gallu elwa o fancio gyda Metro Bank;
- ✓ Galluogi gwasanaethau busnes cynhwysol drwy blatfform sengl a fydd yn cynnwys cadw cyfrifon, anfonebau a rheoli derbynebau busnes; a
- ✓ Lansio datrysiad o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer taliadau a chyfrifon o swm sy'n dderbyniadwy sy'n cysoni â gwasanaethau cwmwl – gan arbed amser a gwella effeithlonrwydd.

Drwy ymrwymadau a mentrau fel y rhain y bydd Metro Bank yn parhau i gynnig gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf i'n holl gleientiaid cyfredol ac yn y dyfodol yng Nghymru. Gellir gweld gwybodaeth bellach am ein hymrwymadau ar-lein yma: www.bcr-ltd.com.

2. Yr amrywiaeth o ffyrdd y gall cau cangen a mynediad at beiriannau ATM am ddim, effeithio ar gymunedau lleol (er enghraifft yr effeithiau o safbwynt busnes, twristiaeth, cymdeithasol, demograffig ac adfywio).

Mae Metro Bank yn hynod o ymwybodol o'r effaith y caiff canghennau banc lleol ar y cymunedau y maen nhw'n gweithredu oddi fewn iddynt. Am y rheswm hwn, fel blaenoriaeth busnes cyfredol i ni, ein bod ni'n weithredol o ran gwyrddroi trefn gyfredol diwydiant o gau banciau gan ledaenu canghennau newydd ledled y wlad yn lle hynny.

Rydym wedi cyhoeddi ein bwriad i agor dwy gangen newydd yng Nghymru. Bydd ein presenoldeb yng Nghymru yn ein galluogi ni i gefnogi cymunedau a busnesau'n well gan gyflogi tua 50 o staff a buddsoddi mewn rhaglenni prentisiaeth lleol.

Byddwn hefyd yn parhau i gynnig llawer o'n mentrau sydd am ddim, gan gynnwys y rhaglen addysg ariannol, Parth Arian, i ysgolion a grwpiau ieuenticid yn yr ardal hon. Caiff yr hyfforddiant hwn ei gymeradwyo gan y Cwricwlwm Cenedlaethol a chaiff ei ddarparu drwy sesiynau yn yr ystafell ddsbarth ac wedi eu lleoli mewn canghennau. Y mae eisoes wedi llwyddo i gefnogi mwy na 100,000 o blant ledled y DU gyda'u llythrennedd ariannol.

3. Deall proses, buddion a heriau arfaethedig sy'n gynwysedig wrth sefydlu banc cymunedol gyda changhennau lluosog yng Nghymru.

Fel y banc newydd cyntaf i ymddangos ar y stryd fawr ers dros 100 mlynedd, mae Metro Bank yn deall yr heriau cynhenid sydd wrth sefydlu presenoldeb bancio newydd yn y DU. Fodd bynnag, er gwaethaf cystadleuaeth sy'n tyfu a rhagor o ddewis i ddefnyddwyr, mae'r sector yn cael ei ddominyddu i raddau helaeth gan y pum banc mawr. O ran egwyddor, rydym yn croesawu unrhyw gynnig, gan gynnwys canghennau banc cymunedol newydd i Gymru, sy'n anelu at gynyddu dewis y cwsmer ymhellach, ond byddem yn datgan na fu'r amrywiaeth o ddewisiadau, sydd ar gael ar hyn o bryd i gwsmeriaid sy'n ystyried newid darparwr banc, erioed mor helaeth.

Ymhellach, mae'r gronfa G ac A diweddar y llwyddodd Metro Bank wneud cais amdani ac yna ei hennill, wedi ei hanelu'n unig at hyrwyddo cystadleuaeth yn sector ariannol y BBaCh a bydd y gwelliant o ran dewis a benthyca i berchnogion busnes yng Nghymru a thu hwnt yn bellgyrhaeddol.

Am Metro Bank

Mae Metro Bank yn achosi chwyldro ym mancio Prydain. Caiff ei glodfori am roi profiad eithriadol i'r cwsmer ac am ei nwyddau y gellir ymddiriedir ynddynt. Yn 2017 cafodd ei ddyfarnu fel y 'Darparwr Ariannol y Gellir Ymddiried Ynddo Fwyaf' yng Ngwobrau Gwasanaeth Cwsmeriaid *Moneywise*, y 'Darparwr Ariannol Gorau' yng Ngwobrau Busnes Evening Standard 2017 a 'Banc y Flwyddyn' yng Ngwobrau *City A.M.* yn 2016.

Yn 2019 dathlodd cael ei osod ymhlith pump uchaf gwasanaethau cymhwyso busnes a gwasanaethau cyfrif personol yn arolwg y CMA i ansawdd gwasanaeth bancio – gan gyflawni'r wobwr gyntaf ar gyfer cyfrifon cyfredol personol (83% bodlondeb cwsmer) a'r ail wobwr am gyfrifon cyfredol busnes (gyda 71% bodlondeb).

Wrth gynnig gwasanaethau manwerthu, busnes, masnachol a phreifat, mae Metro Bank ei hun yn ymfalchïo mewn defnyddio technoleg fel bod cwsmeriaid yn cael dewis bancio ym mha bynnag fodd, pa bynnag bryd a pha bynnag le y maen nhw'n dewis gwneud hynny. Boed hynny drwy ei rwydwaith o ganghennau sy'n tyfu ac ar agor saith niwrnod yr wythnos, o ben bore tan yn hwyr yn y nos, 362 diwrnod y flwyddyn; ar y ffôn drwy ei ganolfannau cyswllt a leolir yn y DU 24/7 yng ngofal pobl nid peiriannau; neu ar-lein drwy ei ap symudol gwobrwyedig ar gyfer bancio ar y we.

Mae'r banc yn cyflogi dros 3,900 o staff ac mae ei bencadlys yn Holborn, Llundain.

Manylion cyswllt

Os hoffech gael gwybodaeth bellach am y cyflwyniad hwn, cysylltwch:

- **Paul Riseborough**, Prif Swyddog Masnachol: Paul.Riseborough@MetroBank.plc.uk; a
- **Tina Coates**, Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau : Tina.Coates@MetroBank.plc.uk.